

Edexcel GCE

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu Gymhwysol

Uned 3: Y Gweithiwr Gwybodaeth

Mehefin 2010

Senario

Cyfeirnod y Papur

6953/01

Dylid dosbarthu'r senario hwn i ymgeiswyr o leiaf dair wythnos waith cyn yr arholiad.

Ffeiliau ymarfer: Times_practice.txt, Model_practice.xls

Dylai'r senario hwn gael ei ddefnyddio at ddiben paratoi ymgeiswyr ar gyfer yr arholiad. **Ni chaniateir** mynd â'r copi hwn i mewn i'r arholiad. Bydd y wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn y senario yn cael ei chynnwys yn y papur arholiad.

Mae mwy o fanylion i'w cael yn y Cyfarwyddiadau ar gyfer Cynnal Arholiadau (ICE), sydd ar gael o wefan Edexcel ar gyfer y cymhwyster hwn.

Ni fydd Edexcel yn derbyn unrhyw gais am ystyriaeth arbennig os rhoddir y senario anghywir i ymgeiswyr ar gyfer yr arholiad y maent yn ei sefyll.

Trowch y dudalen ►

N38458A

©2010 Edexcel Limited.

1/



edexcel 
advancing learning, changing lives

Rowndiau Terfynol Serennog Rhanbarthau Cynghrair Pêl-fasged Prydain

Mae Cynghrair Pêl-fasged Prydain wedi'i rhannu yn bum rhanbarth (*division*): Gogledd Lloegr, De Lloegr, Canolbarth Lloegr, Cymru a Gorllewin Lloegr, a'r Alban. Mae pob rhanbarth yn cynnal cynghreiriau ar wahân. Yn ogystal â'r timau oedolion, mae timau ar wahân i fechgyn a merched sy'n chwarae mewn pedwar grŵp oedran gwahanol: o dan 12, o dan 14, o dan 16 ac o dan 18 oed.

Yn ystod y tymor, mae pob tîm ym mhob cynghrair yn chwarae ei gilydd ddwywaith, gartref ac oddi cartref. Ar ddiwedd y tymor mae'r timau buddugol o bob cynghrair yn chwarae mewn twrnaint i benderfynu'r Pencampwyr Cenedlaethol.

Pan fydd yr holl Bencampwyr Cenedlaethol wedi cael eu coroni, bydd y paratodau'n dechrau ar gyfer Rowndiau Terfynol (*play-offs*) Serennog y Rhanbarthau. Yn wreiddiol, roedd y rowndiau terfynol yn dipyn o hwyl ar ôl diwedd y tymor ond, dros y blynyddoedd, mae eu pwysigrwydd wedi cynyddu. Mae rheolwyr Tîm Prydain Fawr erbyn hyn yn defnyddio'r rowndiau terfynol i ddewis y timau cenedlaethol. O ganlyniad, mae'r pum gweinyddiaeth ranbarthol yn cymryd y rowndiau terfynol o ddifrif ac yn dod â'r chwaraewyr gorau o'r timau yn eu rhanbarth at ei gilydd i hyfforddi mewn sgwadiau.

Eleni, mae Rhanbarth De Lloegr wedi bod yn ddigon ffodus i sicrhau gwasanaeth David Coates fel hyfforddwr. David "*flying fifteen*" Coates yw'r unig chwaraewr o Loegr yn NBL (Cynghrair Pêl-fasged Genedlaethol) America. Mae'n gyn-chwaraewr dros y Southend Sabres a bellach mae'n chwarae "canolwr" dros yr Arizona Cobras. Mae gweinyddiaeth y rhanbarth yn awyddus i fanteisio i'r eithaf ar sgiliau David. Maent wedi trefnu sesiynau hyfforddi yn eu canolfan yn Crawley. Bydd diwrnod hyfforddi gwahanol ar gyfer pob grŵp oedran a bydd sgwadiau o fechgyn a merched yn cymryd rhan. Bydd y sesiynau hyfforddi yn dechrau am 12:30 a bydd angen i bawb sy'n cymryd rhan gofrestru eu presenoldeb erbyn canol dydd.

Mae 14 clwb yn Rhanbarth De Lloegr. Mae Tabl 1 yn dangos enwau'r clybiau a'u lleoliadau.

Tabl 1

Clwb	Lleoliad
Brentwood Bees	Brentwood
Brighton Celts	Brighton
Aylesbury Lightning	Aylesbury
Guildford Dragons	Guildford
Ipswich Tigers	Ipswich
Kent Stallions	Caergaint (<i>Canterbury</i>)
Kingston Lions	Kingston
London Giants	Lewisham
London Jets	Paddington
Newham Fire	Newham
Reading Pirates	Reading
Solent Stars	Southampton
Southend Sabres	Southend
Worthing Phoenix	Worthing

Mae Ffigur 1 yn dangos lleoliadau clybiau Rhanbarth De Lloegr



Mae'r 15 chwaraewr gorau ym mhob cynghrair yn cael eu dewis i fynychu'r sesiwn hyfforddi. Mae gan y weinyddiaeth bedwar bws mini 16 sedd (1 gyrrwr a 15 teithiwr), ac mae'n eu hanfon nhw o Crawley i gasglu'r chwaraewyr. O ganlyniad, mae'n rhaid i'r bysys mini gasglu 30 o chwaraewyr (15 bachgen a 15 merch) o'u clybiau ar gyfer pob sesiwn hyfforddi. Gall y chwaraewyr sy'n cael eu dewis ddod o unrhyw glwb yn y gynghrair a gall pob clwb gyflenwi unrhyw nifer o chwaraewyr.

Rydych chi'n arbenigwr TG sy'n gweithio i Ranbarth De Lloegr ac mae eich rheolwr wedi gofyn i chi benderfynu sut a phryd y caiff y chwaraewyr eu casglu. Bydd angen i yrwyr y bysys mini wybod pa amser i adael a pha glybiau y mae angen mynd iddynt. Hefyd, bydd angen iddynt wybod ym mha drefn ac am faint o'r gloch y dylent gyrraedd pob clwb. Byddai'n ddefnyddiol hefyd gwybod faint o bobl y bydd yn rhaid iddynt eu casglu. Bydd angen dweud wrth y chwaraewyr faint o'r gloch y mae angen iddynt fod yn eu clwb ac mai dim ond am bum munud ar ôl yr amser casglu cytûn y bydd y bws mini'n aros.

Er mwyn eich helpu chi i wneud y penderfyniadau hyn, rydych wedi cael model wedi'i gwblhau'n rhannol a fydd yn gweithio'r amserau allan i chi.

Disgrifiad o'r model

Taflen waith	Disgrifiad
<i>Teams</i>	Yn y daflen waith hon gallwch osod nifer y chwaraewyr sydd wedi cael eu dewis o bob tîm. Hefyd, gallwch osod pa fws mini fydd yn galw ym mhob pwynt casglu ac ym mha drefn. Bydd nifer y teithwyr ar bob bws mini'n cael ei gyfrifo.
<i>Timetable</i>	Yn y daflen waith <i>Timetable</i> , gallwch osod yr amser cychwyn ar gyfer pob un o'r bysys mini. Bydd amserau cyrraedd a gadael y clybiau yn cael eu cyfrifo.
<i>Timings</i>	Bydd y daflen waith <i>Timings</i> yn cynnwys yr amser teithio mewn munudau rhwng y clybiau.
<i>Calculated Time</i>	Mae'r daflen waith <i>Calculated Time</i> yn cymryd y gwerthoedd yn y daflen waith <i>Timings</i> ac yn eu troi yn fformat <i>hh:mm:ss</i> .
<i>Memo</i>	Bydd y daflen waith <i>Memo</i> yn rhoi gwybodaeth i yrwyr y bysys mini.

Mae rhai celloedd yn y model wedi'u diogelu gan gyfrinair. Os ydych yn dymuno arbrofi â'r model, y cyfrinair yw *edexcel*. Dylech fod yn ymwybodol os ydych yn newid cynnwys unrhyw gell sydd wedi'i ddiogelu ei bod yn bosibl na fydd y model yn gweithio.